Astudiaeth achos:
Grant Adnewyddu Menter

Rhanbarth
Sir y Fflint

Sector
Twristiaeth

Gwerth y prosiect
£9,296

CLWB GOLFF YR WYDDGRUG

Mae pŵer solar yn hybu chwyldro gwyrdd mewn clwb golff hanesyddol yn Sir y Fflint – heb sôn am fflyd o fygis.

Mae'r bygis yng Nghlwb Golff yr Wyddgrug yn ffordd wych o fynd o gwmpas y cwrs 18 twll ucheldir godidog hwn yng nghysgod Moel Famau. Ond maen nhw hefyd yn defnyddio llawer o drydan.

Tan yn ddiweddar, nid oedd hyn yn newyddion da i'r amgylchedd – nac i fil ynni'r clwb. Erbyn hyn, mae'r system paneli solar 12-kilowat ar do tŷ'r clwb, a ariannwyd gan grant busnes Adnewyddu Menter, wedi newid hynny i gyd.

Nid dim ond pan fydd yr haul yn tywynnu y mae'n darparu pŵer. Gydag uned storio batri wedi'i gosod gyda grant gan Golff Cymru, mae'n storio ynni dros ben y gellir ei ddefnyddio dros nos. Perffaith ar gyfer ailwefru'r bygis yn barod ar gyfer dechrau'n gynnar yn y bore.

"Roedd mynd yn solar yn rhywbeth roedden ni wedi bod yn siarad amdano ers amser maith," meddai'r rheolwr Deborah Barton. "Roedden ni eisiau gwella ein cynaliadwyedd hirdymor a lleihau ein biliau ynni a'r effaith ar yr amgylchedd. Ond fe wnaethom sylweddoli y byddai'n ymrwymiad ariannol sylweddol.

"Mae wedi bod yn gyfnod anodd iawn i bob busnes dros y blynyddoedd diwethaf. Fel clwb golff, rydyn ni'n gwneud yn dda iawn ond mae'n rhaid i ni fod yn ddoeth a blaenoriaethu ein gwariant. Roedd y grant Adnewyddu Menter yn rhoi'r hyder i ni symud ymlaen gyda solar yn gynt o lawer nag y byddem wedi'i wneud fel arall."

Yr arwyddion cynnar yw bod y 32 o baneli solar wedi helpu i ddefnyddio 25% yn llai o ynni. Mae'n tanlinellu manteision ymgyrch y clwb i ddad-garboneiddio eu gweithrediad.

"Rydyn ni'n ceisio bod yn fwy eco-gyfeillgar ar y cwrs ac yn y clwb," meddai Deborah. "Rydym yn edrych ar bob agwedd ar gynaliadwyedd – rheoli dŵr fydd y prosiect mawr nesaf i ni yn y dyfodol. Rydyn ni'n ymwybodol iawn o'n cyfrifoldeb i wneud y peth iawn."

Efallai fod y clwb wedi'i sefydlu dros 100 mlynedd yn ôl ond yn sicr nid yw'n byw yn y gorffennol. Mae ganddo un o'r academïau iau mwyaf yng Nghymru ac aelodaeth gref gyda mwy o bobl ifanc yn ymuno nag erioed yn sgil y pandemig. Maen nhw yn cefnogi'r chwyldro solar.

"Rydyn ni wedi cael ymateb cadarnhaol iawn gan ein haelodau, maen nhw'n meddwl mai dyma'r peth synhwyrol a chyfrifol i'w wneud ac maen nhw'n gallu gweld y manteision hirdymor," pwysleisia Deborah. "Mae'n dda i fusnes ac yn fuddsoddiad cadarnhaol yn y seilwaith yma. Rydyn ni'n hoffi meddwl ein bod ni'n glwb blaengar sy'n hapus i groesawu newid."

CADWYN Clwyd
Asiantaeth Datblygu Gwledig
Rural Development Agency

Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig
Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig
European Agricultural Fund for Rural Development:
Europe Investing in Rural Areas
LEADER
Llywodraeth Cymru
Welsh Government